Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf / Our ref: MA-L/VG/0248/18

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Government.Committee.Business@gov.wales

22 Mai 2018

Annwyl Dai,

Ysgrifennais atoch ar 28 Mawrth yn cyflwyno fy ymateb i'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon (a gyhoeddwyd ar 5 Mawrth) mewn perthynas â Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru).

Mewn perthynas ag argymhellion 13 ac 14, dywedais y byddwn yn rhannu cynlluniau cynnar Llywodraeth Cymru ar gyfer gwerthuso'r ddeddfwriaeth wrth iddynt gael eu datblygu.

Bwriedir y bydd y gwerthusiad cyffredinol o Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) ar ffurf dadansoddiad o gyfraniad. Bydd pedwar edefyn o ddata ac ymchwil yn llywio'r asesiad hwn.

Mae dadansoddiad o gyfraniad yn ddull gwerthuso sy'n seiliedig ar theori, sy'n briodol ar gyfer adolygu rhaglenni gwaith cymhleth sydd ar sawl lefel ble nad oes modd priodoli achosion yn uniongyrchol.[1] Mae'r dull yn berthnasol yma am nad cyflwyno isafbris am alcohol yw'r unig ffactor a allai effeithio ar gyfraddau yfed alcohol a niwed cysylltiedig ag alcohol. Mae angen i'r ymagwedd at werthuso roi ystyriaeth i hyn ac asesu'r cyfraniad y mae'r polisi wedi'i wneud at unrhyw newidiadau i ganlyniadau y gellir eu gweld. Mewn theori, ystyrir ei bod yn rhesymol asesu cyfraniad y rhaglen os:

- oes theori o newid sy'n dangos cysylltiadau rhwng gweithredoedd a chanlyniadau
- yw'r gweithgareddau a gynlluniwyd wedi'u gweithredu
- oes tystiolaeth i gefnogi'r uchod
- yw'r ffactorau eraill a allai gael effaith ar ganlyniadau wedi'u hystyried.

[1] Mayne, J. (2008) Contribution analysis: An approach to exploring cause and effect. The Institutional Learning and Change (ILAC) Initiative.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ceisia'r ymagwedd hon wneud asesiad rhesymol o'r cyfraniad a wna'r polisi at gyflawni ei nod cyffredinol.

Mae theori gychwynnol, ddrafft o newid wedi'i chynnwys yn yr atodiad. Bydd y contractwr llwyddiannus, fel cam cyntaf, yn mireinio'r theori o newid ymhellach ar gyfer y polisi. Bydd y camau nesaf yn cynnwys cynhyrchu ac adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael a gesglir o ganlyniad i'r gweithredoedd y mae'r polisi'n eu cymryd, a chynnull hanes gwybodus o gyfraniad.

Mae sawl edefyn o waith a fydd yn cyfrannu at gynhyrchu ac adolygu tystiolaeth, sef:

- **Data rheolaidd**

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn casglu ac yn adrodd ar gyfraddau yfed alcohol bob blwyddyn – cyhoeddir data newydd yn yr haf a bydd hyn yn cael ei adrodd bob blwyddyn fel rhan o broses fonitro barhaus ar gyfer polisi alcohol.

Mae data ar farwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol a derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu priodoli i alcohol wedi'u cynnwys yn y proffil blynyddol ar gyfer camddefnyddio sylweddau y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei lunio a'i gyhoeddi bob hydref.

Bydd data monitro ar gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn cael ei chasglu oddi wrth yr awdurdodau lleol.

- **Astudiaethau a gomisiynir**

Mae'n bosibl y bydd angen comisiynu nifer o astudiaethau penodol er mwyn darparu'r dystiolaeth i'w bwydo i'r dadansoddiad o gyfraniad. Mae'r meysydd ble mae'n debygol y bydd angen y rhain mewn testun coch yn yr atodiad. Maent yn cynnwys:

Agweddau cymdeithasol ac ymwybyddiaeth – mae'n debygol y comisiynir cwestiynau mewn arolwg priodol ar adegau penodol (i'w cytuno) cyn gweithredu'r ddeddfwriaeth ac yn ystod y cyfnod adolygu pum mlynedd. Bydd y rhain yn asesu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o nodau'r Bil ac agweddau cymdeithasol tuag at gyflwyno isafbris am alcohol. Drwy gynnwys cwestiynau dros gyfnod o amser, gellir asesu newidiadau mewn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth wrth i'r ymgyrch gyfathrebu fynd rhagddi. Gellir defnyddio'r canfyddiadau hyn hefyd i lywio cynlluniau parhaus ar gyfer cyfathrebu.

Gwaith gyda manwerthwyr – mae'r cynlluniau ar gyfer y gwaith hwn yn yr arfaeth. Mae'n debygol y byddwn yn defnyddio'r cysylltiadau presennol gyda Rhwydwaith y Diwydiant Alcohol Llywodraeth Cymru a Chonsortiwm Manwerthu Cymru i sicrhau mynediad rhwyddach at gyfranogwyr ymchwil ar gyfer y gwaith hwn. Gellid cynnwys tai tafarn yn yr agwedd hon ar waith ymchwil er mwyn cael adborth ar effaith y polisi ar y sector hwn.

Gwaith ansoddol gyda gwasanaethau – mae'r cynlluniau yn yr arfaeth. Mae'n debygol y cynhelir peth gwaith cyn gweithredu'r ddeddfwriaeth er mwyn deall pa effeithiau y bydd y ddeddfwriaeth yn eu cael, ym marn gwasanaethau, a sut y mae gwasanaethau'n cefnogi'u cleientiaid i baratoi ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth. Mae'n debygol y bydd gwaith pellach ar ôl gweithredu'r ddeddfwriaeth er mwyn deall y canfyddiadau o effaith y ddeddfwriaeth. Gellid defnyddio gwasanaethau hefyd fel man cyswllt ar gyfer yfwyr a niweidir.

Gwerthiant trawsffiniol – defnyddiwyd data ar werthiant trawsffiniol mewn siopau bwyd ar gardiau wedi'u cofrestru yng Nghymru ar gyfer y memorandwm esboniadol a'r asesiad o

gystadleuaeth. Gellid defnyddio'r data hyn eto a gellid comisiynu gwaith arall i archwilio effaith drawsffiniol y polisi.

Data ar werthiant alcohol – nid yw data gwerthiant, sy'n dangos y prisiau a delir am ddiodydd alcoholig, ar gael yn rheolaidd, ac felly bydd angen sicrhau eu bod ar gael at ddefnydd Llywodraeth Cymru.

Dadansoddiad o wariant cartrefi – mae'r cynlluniau ar gyfer y gwaith hwn yn yr arfaeth. Bydd ffynonellau data posibl yn cael eu harchwilio, gyda'r nod o gynnal gwaith dadansoddi pellach i ddeall a yw cyfrannau o wariant cartrefi ar wahanol gategorïau o nwyddau yn newid ar ôl gweithredu'r ddeddfwriaeth.

Dadansoddiadau pellach o ddata rheolaidd – mae'n bosibl y bydd angen cynnal neu gomisiynu peth gwaith dadansoddi penodol o rywfaint o'r data rheolaidd, fel ystadegau pennawd a gyhoeddir yn rheolaidd ar ddata'r Arolwg Cenedlaethol ar gyfraddau yfed alcohol. Bydd angen gwaith dadansoddi pellach i fonitro cyfraddau yfed yfwyr mewn perygl ac yfwyr a niweidir. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi newid y diffiniad o farwolaethau cysylltiedig ag alcohol yn ddiweddar, felly mae'n bosibl y bydd angen gwaith dadansoddi pellach hefyd i sicrhau bod modd cymharu'r ystadegau a archwilir dros amser.

Gwaith arall y gellid ei gomisiynu – os codir materion perthnasol nad ydynt wedi'u hystyried o'r blaen, mae'n debygol y byddai gwaith ychwanegol yn cael ei gomisiynu i archwilio'r rhain mewn mwy o fanylder.

- **Dysgu o'r gwerthusiad o weithredu deddfwriaeth isafbris yn yr Alban**

Mae Llywodraeth yr Alban wedi gofyn i NHS Health Scotland gomisiynu rhaglen waith i werthuso deddfwriaeth isafbris yn yr Alban. Mae swyddogion o Lywodraeth Cymru wedi mynychu cyfarfodydd i ddysgu mwy am yr astudiaethau hyn a byddant yn parhau i gadw golwg ar y cynnydd. Byddwn yn ystyried cymhwyso'r hyn a ddysgir gan yr astudiaethau o'r Alban at Gymru (ble ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny). Yn arbennig, byddwn yn ceisio dysgu gwersi cynnar o'r Astudiaeth ar Yfwyr a Niweidir a'r Astudiaeth o Fanwerthwyr Bach. Mae'r astudiaethau a gomisiynwyd yn yr Alban ac a allai ddarparu data ar gyfer y dadansoddiad o gyfraniad yma yng Nghymru wedi'u lliwio'n las yn yr atodiad.

Rydym wedi comisiynu Figure 8 Ltd, asiantaeth ymchwil annibynnol, i gynnal asesiad o gymharedd o yfwyr a niweidir a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt yng Nghymru a'r Alban. Bydd hyn yn caniatáu i ni bennu i ba raddau y gallwn ddysgu o'r astudiaeth sy'n mynd rhagddi yn yr Alban, a ble fyddai orau i ganolbwyntio comisiynu unrhyw astudiaeth yng Nghymru.

- **Gwerthusiad annibynnol gan Brifysgol Caerdydd a gyllidir yn allanol**

Mae tîm o ymchwilwyr o Brifysgol Caerdydd yn datblygu cais am gyllid gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd i werthuso isafbris yr uned yng Nghymru. Os bydd y cais yn llwyddiannus, bydd y gwaith hwn yn ategu gwaith a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru a bydd yn darparu ffynonellau tystiolaeth pellach y gellir eu defnyddio yn y dadansoddiad o gyfraniad. Mae'r meysydd y gallai'r astudiaeth hon gyfrannu atynt mewn testun porffor yn y diagram yn yr atodiad.

Mae swyddogion o Lywodraeth Cymru wedi gweld datganiad o ddiddordeb ac wedi cael cyfle i gynnig sylwadau ar ddrafft o'r cais llawn, ond nid ydynt wedi cymryd rhan yn y gwaith o'i ddatblygu, sy'n bwysig er sicrhau annibyniaeth y gwaith. Caiff y cais llawn ei gyflwyno yn fuan, a bydd penderfyniadau ynghylch cyllido yn hysbys ym mis Tachwedd. Byddwn yn parhau i gael y diweddaraf ynghylch y cynnydd ar y cais hwn.

Rydym yn rhoi ystyriaeth ofalus i sut i werthuso ac adolygu'r ddeddfwriaeth newydd ac arloesol hon, a sut orau i ddysgu gan astudiaethau eraill sydd yn yr arfaeth neu sy'n mynd rhagddynt eisoes yn y maes polisi hwn.

Dros y misoedd nesaf, gwneir gwaith pellach i roi gwedd derfynol ar ein cynlluniau. Rwy'n derbyn yn llawn y dylai'r gwerthusiad ganolbwyntio ar y graddau y mae'r ddeddfwriaeth wedi cyfrannu at sicrhau newid ar draws ystod o ganlyniadau allweddol ac effeithiau isafbris yr uned ar grwpiau penodol. Fodd bynnag, nid wyf o'r farn ei bod yn angenrheidiol nac yn briodol pennu union gwmpas yr adroddiad gwerthuso ar weithredu'r ddeddfwriaeth a'i heffaith ar wyneb y Bil am y gallai hyn ein hatal rhag bod yn hyblyg i ymateb i faterion a datblygiadau wrth iddynt godi, os caiff y Bil ei ddeddfu.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'r pwyllgor wrth i'r Bil fynd trwy'r Cynulliad.

Yn gywir,

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Atodiad: Theori o Newid – IBU (Isafbris yr Uned) i Gymru – yn dangos yr astudiaethau o lefydd eraill sydd ar gael ac astudiaethau eraill posibl i'w comisiynu.

NODER: Mae testun porffor yn dangos canfyddiadau posibl o astudiaeth Prifysgol Caerdydd. Mae tesun coch yn amlinellu gwaith i ystyried ei gomisiynu. Mae testun glas yn astudiaeth o'r Alban. Mae testun du yn ddata rheolaidd.